Pecyn Dogfennau

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD LLUN, 20 CHWEFROR 2023**

**AT: HOLL AELODAU Y PWYLLGOR TRWYDDEDU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR TRWYDDEDU** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP AM 2.00 YP DYDD MAWRTH, 28AIN CHWEFROR, 2023** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Julie Owens** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224088** |
| **E-Bost:** | **juowens@sirgar.gov.uk** |
| **Cyfarfod aml-leoliad yw hwn. Gall aelodau'r pwyllgor fynychu'n bersonol yn y lleoliad a nodir uchod neu o bell drwy'r ddolen Zoom a ddarperir ar wahân.** | |
| **Gellir gwylio'r cyfarfod ar wefan y cyngor drwy'r ddolen canlynol:-** https://carmarthenshire.public-i.tv/core/portal/home | |

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

**GRŴP PLAID CYMRU-  8 Members**

Cyng. Mansel Charles (Cadeirydd)
Cyng.  Alex Evans
Cyng. Tyssul Evans
Cyng. Ken Howell
Cyng. Hefin Jones
Cyng. Jean Lewis
Cyng.  Dorian Phillips
Cyng. Elwyn Williams

**GRŴP LLAFUR -  4 Members**

Cyng. Peter Cooper
Cyng. Suzy Curry
Cyng. Dot Jones
Cyng. Kevin Madge

**GRŴP ANNIBYNNOL -  1 Members**

Cyng. Louvain Roberts

# A G E N D A


| | | |
|---|---|---|
| 1. | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.** | |
| 2. | **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.** | |
| 3. | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 19 IONAWR 2023** | 5 - 6 |
| 4. | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 10 IONAWR 2023** | 7 - 10 |
| 5. | **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD.** | |


NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIADAU SY'N YMWNEUD Â'R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 12 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007 GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH AM UNIGOLYN PENODOL. OS BYDD Y PWYLLGOR, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD, YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATERION HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.


| | | |
|---|---|---|
| 6. | **MR DYLAN CROMPTON DAVIES CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 11 - 14 |
| 7. | **MR DAMIAN MARTYN MUNRO CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 15 - 18 |
| 8. | **MR WAYNE SCOTT DICKSON CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 19 - 22 |
| 9. | **MR JEFFREY THOMAS CHANDLER TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 23 - 26 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

## DYDD IAU, 19 IONAWR 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
J.K. Howell

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
W.T. Evans

**Hefyd yn bresennol fel sylwedydd (Yn rhithwir)**
Cynghorydd S.A. Curry

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu
A. Rees, Swyddog Trwyddedu
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Chamber - County Hall, Carmarthen. SA31 1JP and remotely - 10.00 - 11.30 yb**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

**2. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**3. DEDDF TRWYDDEDU 2003 - CAIS YN YMWNEUD Â DOSBARTHIAD FFILM**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais a gafwyd gan Ms Carys Ifan, ar ran Canolfan S4C Yr Egin, yn gofyn am argymhelliad ynghylch caniatáu i blant wylio ffilmiau a oedd yn ddiddosbarth yn flaenorol.

Nododd yr Is-bwyllgor y dylai'r ffilmiau a ddangosir gael argymhelliad ynghylch caniatáu i blant eu gwylio a roddwyd naill ai gan gorff Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau

Prydain neu gan yr Awdurdod Trwyddedu perthnasol, a hynny er mwyn bodloni gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Er mwyn galluogi'r Is-bwyllgor i wneud yr argymelliadau gofynnol ynghylch caniatáu i blant wylio'r ffilmiau, cafodd gyfle i wylio'r ffilmiau, gan roi ystyriaeth i'r canllawiau ynghylch y graddau oedran a luniwyd gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd gerbron,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y ffilmiau o'r enw 'Affairs of the Art', 'Other Half', 'Sauna', 'Freedom Swimmer', 'In Nature', 'Shift', 'NOMINO SUKUNE', 'Crafty Witch' a 'Blending In' yn cael eu dosbarthu'n ffilmiau gradd 15.**

________________________ __________________

**CHAIR** **DATE**

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

## DYDD MAWRTH, 10 IONAWR 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd M. Charles (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
P. Cooper H. Jones

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.A. Curry | A. Evans | W.T. Evans | D. Jones |
| M.J.A. Lewis | D.E. Williams | B.A.L. Roberts | |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 10.43 yb**

[Sylwer: Yn unol â Rheol 2(3) o Weithdrefn y Cyngor, newidiodd y Cadeirydd drefn y materion ar yr agenda er mwyn i Eitem 5 ar yr Agenda gael ei hystyried yn hwyrach yn y cyfarfod. Mae'r cofnodion hyn yn adlewyrchu'r drefn a gyflwynwyd ar yr agenda gyhoeddedig].

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd D. Phillips. Dywedodd y Cadeirydd fod ymddiheuriad am absenoldeb hefyd wedi dod i law gan y Cynghorydd K.T. Howell, ac yr oedd disgwyl iddo ymuno â'r cyfarfod yn hwyr.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

### 3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 9FED RHAGFYR,2022.

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu oedd wedi ei gynnal ar 9 Rhagfyr, 2022 yn gofnod cywir.**

**4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**5. MR. CALLUM ANTHONY STUART MEADOWS-WILLIAMS DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Callum Anthony Stuart Meadows-Williams o "Fairholme", Heol y Gogledd, Hendy-gwyn ar Daf yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gyda'r Awdurdod.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i aelodau'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'i drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Meadows-Williams ynghylch y materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Meadows-Williams yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod Mr Callum Anthony Stuart Meadows-Williams yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

<u>Y Rheswm</u>

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**6. MR. HYWEL DOUGLAS PRICE THOMAS CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Hywel Douglas Price Thomas, Fflat 27 Hafan y Morfa, Llanelli am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i aelodau'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'i drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Thomas a'i gynrychiolwyr ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Thomas yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr Hywel Douglas Price Thomas am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

<u>Y Rheswm</u>

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**7. MR. COREY JAY OSBORNE TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.**

Cafodd y Pwyllgor wybod, ar ôl cyflwyno'r wybodaeth a oedd ei hangen fel rhan o brosesau llywodraethu'r Awdurdod, fod y cais wedi'i dynnu'n ôl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi bod y cais wedi'i dynnu'n ôl.**

**8. MR. LEE CAINES TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Lee Caines o 126 Heol y Gors, Cwm-gors, Rhydaman yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gyda'r Awdurdod.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i aelodau'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'i drwydded.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Trwydded Yrru Ddeuol Mr Caines ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat yn cael ei dirymu.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol ag argymhellion y Swyddog, ddirymu Trwydded Yrru Ddeuol Mr Lee Caines ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.**

Y Rheswm:

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, ni allai'r Pwyllgor fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded. Felly daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod rheswm digonol i ddirymu'r drwydded.

**9. MR. THOMAS RICHARD ROWCLIFFE TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.**

Cafodd y Pwyllgor wybod, ar ôl cyhoeddi dogfennau'r cyfarfod, fod yr ymgeisydd wedi ildio ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gyda'r Awdurdod. Felly yr oedd y cais wedi'i dynnu'n ôl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi bod y cais wedi'i dynnu'n ôl.**

________________________ ________________________

**CHAIR** **DATE**

Eitem Rhif 6

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol